# Sut galli di helpu dy blentyn bach â'i ymwybyddiaeth o ffonoleg?

Siarad Gyda Fi
Talk With Me

**Yn gyntaf, bydd plant yn dysgu sut i wahanu geiriau, e.e. byddant yn rhannu 'glawmawr' yn ddau air: 'glaw-mawr'. Yna bydd plant yn dysgu rhannu geiriau yn sillafau ar wahân, e.e. mae 'ba-na-na' yn cynnwys tri sillaf. Yn olaf, bydd plant yn rhannu'r sillafau hyn yn synau lleferydd, e.e., mae 'iâr' yn cynnwys 'i-â-r'. Ymwybyddiaeth o ffonoleg yw hyn: cam pwysig er mwyn bod â lleferydd clir a dysgu darllen ac ysgrifennu.**

**Wrth i blant ddysgu siarad, maen nhw'n dechrau deall geiriau sy'n cynnwys gwahanol synau.**

c-a-th → 'cath'

## Sut mae hyn yn helpu plant i ddatblygu eu sgiliau iaith a lleferydd?

**Mae ymwybyddiaeth o ffonoleg yn helpu plant i adnabod gair o'u hiaith gartref**, a gwahaniaethu rhwng Cymraeg a Saesneg er enghraifft. Mae hyn hefyd yn eu helpu i gywiro eu camgymeriadau eu hunain os byddan nhw'n cael sŵn yn anghywir, a deall geiriau sy'n swnio'n debyg. Mae'r sgiliau hyn yn bwysig er mwyn i blant ddatblygu lleferydd clir a chyfleu eu neges.

Mae ymwybyddiaeth o ffonoleg yn helpu plant pan fyddan nhw'n dysgu darllen ac ysgrifennu. **Os ydyn nhw'n deall pa synau sy'n dod yn gyntaf ac yn olaf mewn gair, gallan nhw adnabod y gair pan fydd wedi ei ysgrifennu.** Er enghraifft, os ydyn nhw'n gwybod y synau yn 'c-a-th', gallai hyn eu helpu i adnabod y gair 'cath' mewn llyfr.

## Sut galla' i helpu o ddydd i ddydd?

- Siarad drwy'r amser! Gall defnyddio llawer o eiriau o gwmpas dy blentyn bach gyflymu datblygiad ei synau.
- Torri geiriau yn sillafau neu'n guriadau. Ceisia ddechrau gyda geiriau y mae dy blentyn bach yn eu gwybod yn barod, fel 'pelen-eira' neu 'brwsh-gwallt'. Yna, dechreua ddefnyddio geiriau mwy cymhleth, fel 'tei-gr', 'cyf-rif-iad-ur', neu 'hof-ren-ydd'. Beth am 'glapio' geiriau wrth fynd am dro, edrych ar lyfr neu chwarae gyda'ch gilydd?
- Efallai y byddai dy blentyn bach yn mwynhau helfa drysor i chwilio am ei hoff deganau. Gallwch **glapio gyda'r sillafau** bob tro y byddwch yn dod o hyd i eitem.
- Mae clapio i sillafau mewn brawddegau syml yn gallu codi ymwybyddiaeth dy blentyn bach o synau. Er enghraifft, clapio i 'dyna gar mawr' neu 'dwi eisiau te'. Dechreua gyda geiriau ag un sillaf a dangos i dy blentyn bach sut i'w wneud rhag ofn y bydd eisiau rhoi cynnig arni hefyd. Weithiau mae cael rhywbeth i edrych arno yn gallu helpu gyda hyn. Beth am godi botwm am bob sillaf neu neidio dros ddail lili wedi'u darlunio â sialc?
- Sut galli di helpu dy blentyn â'i ymwybyddiaeth o synau gartref? Dechreua drwy sylwi faint o sillafau sydd yn y geiriau rwyt ti'n eu dweud. Os bydd dy blentyn yn dweud, "pêl droed yw e": gallet ti ddweud hyn hefyd a chlapio iddo: "ie, pêl-droed, mae gan pêl-droed ddwy ran felly dau glap".
- Dechreua sylwi ar eiriau sy'n odli wrth siarad bob dydd. Gallet ti ddweud "edrych, mae'r ci yn y tŷ, mae ci a tŷ yn swnio bron yr un peth, maen nhw'n odli".
- Mae 'dileu' sillafau yn gam tuag at ymwybyddiaeth well o sain. Er enghraifft, dangos i dy blentyn bod gan 'en-fys' ddau guriad ac ymarfer dileu'r sillaf cyntaf: "os nad ydw i'n dweud 'en', dim ond 'fys' yw e".

## Cyfeiriadau


Stringer, H. (2019). The Newcastle Intervention for Phonological Awareness (NIPA). Newcastle upon Tyne, DU: Prifysgol Newcastle, Ysol Addysg, Cyfathrebu a Gwyddorau Iaith.